

**CYNGOR SIR FYNWY
HYSBYSIAD RHEOLEIDDIO TRAFFIG DROS DRO
ADRAN 14 - DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG Ffordd 1984**

**CYNGOR SIR FYNWY
(STRYD MYNWEY, SGWÂR AGINCOURT, STRYD AGINCOURT A STRYD PRIORDY,
TREFYNWY, SIR FYNWY)
HYSBYSIAD RHEOLEIDDIO TRAFFIG DROS DRO 2020**

HYSBYSIR DRWY HYN bod **CYNGOR SIR FYNWY** o Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ("y Cyngor") yn dilyn y pwerau a roddwyd gan Adran 14(1)(a) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 **DRWY HYN WEDI GORCHYMYN A CHYFARWYDDO** y caiff diben y rheoliadau dilynol eu harsylwi:

1. Daeth y Gorchymyn i rym ar **15 Mehefin 2020** a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod heb fod yn fwy na 18 mis neu hyd cwblhau'r gwaith y cynigir ei wneud, p'un bynnag sydd gynharaf. Rhagwelir y caiff y gwaith ei gwblhau **o fewn 5 wythnos, rhwng 15 Mehefin a 20 Gorffennaf 2020.**
2. Roedd angen y gorchymyn i **wneud gwaith yn gysylltiedig gyda lôn cerbyd cynllun Parth Cyhoeddus Trefynwy** mewn modd diogel yn y lleoliad. Cadwyd mynediad rhesymol ar gyfer adeiladau sy'n wynebu'r darnau o ffordd yr effeithir arnynt yn ystod cyfnod y cau.
3. Effaith y gorchymyn oedd cau dros dro **rannau o Stryd Mynwy, Sgwâr Agincourt, Stryd Agincourt a Stryd Priordy, Trefynwy, Sir Fynwy.**
4. Roedd llwybr gwyro gydag arwyddion yn ei le fel sy'n dilyn:

I gyfeiriad y Gogledd: B4293 (Stryd Blestium), B4293 (Stryd Cinderhill), A40, A466 (Stryd Wyebridge), A466 (Stryd James), A466 (Stryd Mynach), B4932 (Stryd Priordy).

I gyfeiriad y De: B4293 (Stryd Priordy), A466 (Heol Dixton), A420, B4293 (Heol Beech), B4293 (Heol Portal), B4293 (Stryd Cinderhill), B4293 (Stryd Blestium).
5. Gellir cyfeirio at y gorchymyn hwn fel **Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro Stryd Mynwy, Sgwâr Agincourt, Stryd Agincourt a Stryd Priordy, Trefynwy, 2020.**
6. Yn sgil Adran 16(1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 bydd person sy'n torri cyfyngiad neu waharddiad a osodwyd dan Adran 14 y Ddeddf yn euog o drosedd.

Dyddiedig: **15 Mehefin 2020**

Matthew Phillips
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithoil
Cyngor Sir Fynwy
Blwch SP 106
Cil-y-coed
Sir Fynwy
NP26 9AN

ATODLEN

Stryd Mynwy, Sgwâr Agincourt, Stryd Agincourt a Stryd Priordy, Trefynwy, Sir Fynwy

Stryd Mynwy: Ar gau o'i chyffordd gyda Stryd Agincourt/Sgwâr Agincourt i'w chyffordd gyda Stryd Sant Ioan.

Sgwâr Agincourt: Ar gau ar ei hyd.

Stryd Agincourt: Ar gau o'i chyffordd gyda Sgwâr Agincourt/Stryd Mynwy am ~45m.

Stryd Priordy: Ar gau o Sgwâr Agincourt am ~85m.